Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 11eg o Ionawr 2024 Yng Nghanolfan Gymunedol Penrhos am 7.00 y.h

1. **Presennol: /Present Cadeirydd** Cyng D Jones-Morris, Cyng M Baines. Cyng A Joyce, Cyng C Owen, Cyng J Pierce, Cyng B. Jones Cyng I Ellis a Cyng J Griffiths,
Hefyd yn bresennol, E Jones Clerc Mr. E Roberts a'r cyfieithydd
2. **Ymddiheuriadau: Apologies** Cyng L A James Cyng M Lynch a Cyng J Lewis
3. **Cyfethol / Cooption** Yn sgil bod sedd wag ag mae Mr E Roberts oedd yr unig berson wedi datgan diddordeb i gael ei gyfethol fei cyfetholwyd ar Gynnig Cyng B Jones a eiliwyd gan Cyng C W Owen – Derbynwyd yn unfrydol a chroesawyd Cyng E Roberts fel aelod
4. **Datgan buddiant / Declaration of interest** Cyng M Baines a Cyng A Joyce yn datgan eu bod yn aelodau o bwyllgor Canolfan Penrhos Cyng D Jones-Morris yn datgan diddordeb ei fod yn ymddiriedolwr a'r Gwasanaeth Ambiwlans Awyr oedd wedi gwneud Cais am Nawdd Yn yr un modd Cyng M Baines hefyd yn datgan ei bod hitha ar Fwrdd Goriad oedd hefyd wedi gwneud cais am Nawdd
5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 09fed o Dachwedd /November 2023**
Derbynnwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng J Pierce gafodd ei eilio gan y Cyng M Baines
6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
Nodwyd fod cais wedi ei anfon i newid y bin baw Cwn ar Ffordd Coed y Maes i Bin Sbwrial arferol wedi ei anfon ond dim ymateb wedi ei dderbyn Cadarnhawyd fod y sbwriel oedd yn y Bin Halen wedi ei glirio a'i gyflenwi

7. **Materion ariannol / Financial Issues**
   a. **Mantolen ariannol / Financial report**
   Derbynwyd y fantolen ariannol i ddiwedd Rhagfyr yn dangos £17,011.50 yn y cyfrif cyfredol a £40,587.81 yn y Cyfrif Cadw
   b. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 29/11/2023**
   'Roedd cofnodion - heb eu cadarnhau – o Is-bwyllgor cyllid 29 oTachwedd wedi ei ddosbarthu yn cadarnhau fod Adroddiad Ariannol derfynnol 2022-23 wedi ei derbyn ac yn gadarnhaol Cymerdwywyd argymhellion nawdd o £300 i Llais Ogwan – Radio Ysbyty Gwynedd ag Ambiwlans Awyr a thrafodwyd Cais Ysgol Tryfan am gyfraniad tuag at Sioe Gerdd Mela a hysbysebu o fewn rhaglen y sioe honno Ystyrwyd hefyd gais nawdd Papur Bro Goriad a cytunwyd cyfrannu £300 iddynt hwythau a'r £50.00 am hysbysebu
   c. **Arian nawdd gan gynwys Sioe Mela Ysgol Tryfan a Fynwent Pentir**
   Cais Sioe Mela wedi ei ddatrus uchod a Pwyllgor y Fynwent wedi dod yn ol yn adrodd nad oeddent wedi derbyn amcanbris am y gwaith ond fod £1500. Wedi eu dalu i'r Contractwr ddaru'r gwaith ddwaetha
   **Cytunwyd dal ar beidio rhoi cynnig hyd nes y byddwn yn gwybod faint fyddai'n weddill o'r arian glustnodwyd ar gyfer Nawdd eleni**

d. **Cadarnhau Cyllideb 2024-25**
Trafodwyd sut oedd yr IBC wedi cyrraedd at eu argymhelliad i gadw at y swm o £55K ar gyfer Cyllideb 2024-25 a **cafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo yn unfrydol**

**8. Cynllunio / Planning**
**Dim cais wedi ei dderbyn o ardal Pentir yn ystod Rhagfyr**

**9. Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

e. **Ethol Is-Gadeirydd**
**Etholwyd Cyng I Ellis yn Is-Gadeirydd**

f. **Cyfarfod ynglyn a Canolfan Penrhosgarnedd/parcio Ysgol y Faenol**
'Roedd ail gyfarfod rhithiol wedi cymeryd lle rhwng dirprwyaeth o'r Cyngor ein Cyfreithiwr dirprwyaeth o Bwyllgor Rheoli y Ganolfan a swyddogion Cyngor Gwynedd. Cytunwyd byddai adran gyfreithiol Gwynedd yn cysylltu a'n cyfreithiwr i drafod pa mor agos oeddent i gael cytundeb hefo'r Eglwys yng Nghymru a tharfod telerau cyfreithiol ynglyn a'r 'drwydded' arfaethiedig yn ogystal a'r brydles ar gyfer y Ganolfan newydd
**Y Clerc wedi holi os oedd unrhyw cysylltiad wedi ei wneud ond heb dderbyn unrhyw ddiweddariad**

g. **Materion eraill**

- **Capel y Fynwent**
  Pensaer wedi ymweld a'r Capel ond heb dderbyn yn cynlluniau eto
- **Cysgodfan Bws Nant y Mownt**
  Cadarnhad bod cysgodfannau dan gynllun Trafnidiaeth Cymru i'w gosod yn fuan yn Nant y Mownt a hefyd yn Bryn Ogwen heb ddim cost i'r Cyngor yma
  Cais yn holi lle byddai posib i ail-osod cysgodfan bresnnol Nant y Mownt ond gan ei bod yn gysgodfan llawn maint amhosib oedd cytuno ar leoliad arall ar Ffordd Penrhos
- **Goeden Nadolig**
  Goeden Sgwar Pentir wedi cael croeso mawr. Diolch i Cyngor Gwynedd am sicrhau cyswllt trydannol ag i Cyfeillion Rhiwlas am osod y Goedan a'i addurno Y goeden bellach wedi ei thynnu lawr ag angen ei gwaredu
- **Traelia Cynghorwyr**
  Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cadarnhau bod HMRC wedi cytuno bod y traeliau o £156 a £52 am adnoddau yn cael eu ystyried fel taliadau di-dreth os yw'r Cynghorydd yn cadarnhau eu bod yn 'gweithio o adra' Clerc i dderbyn cadarnhad ysgrifennedig o hynny ag Unllais an anfon templed o lythyr i'r perwyl hwnnw at y clercod

**10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**
**Cyng J Griffiths** **Llythyr Ymddiswyddiad yn Mai 2024**
Y Clerc wedi derbyn e-bost gan y Cyng J Griffiths yn amlinnellu ei fwriad i sefyll i lawr yn Mis Mai 2024 Llwyddwyd i ddwyn perswad arno i ail-yastyried a cytunodd i hynny

Cyngor Cymuned Pentir

**Cyng A Joyce Gwefan Cyngor Pentir / Website**

Holodd y Cynghorydd os oedd ganddo yr hawl gan fod ganddo arbennigedd Technoleg Gwybodaeth i gysylltu yn uniongyrchol a Delwedd i wneud newidiadau ar y Wefan. Atgoffwyd fod trefn wedi ei roi mewn lle ers sawl mis bellach mae Cyng C W Owen oedd wedi ei enwebu i fod y cyswllt rhwng yr Is-grwp addasu'r Wefan a Delwedd

**Cyfaddawdwyd iddo fod yn bresennol pan fyddai'r Cyng Owen wedi trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb hefo Delwedd**

**Cyn D Jones Morris Addasiadau Ffordd Penrhos**

**'**Roedd pryderon dybryd ynglyn a'r gwaith i creu llwybr llesiant ar hyd ffordd Penrhos oedd bellach wedi cychwyn o gyffordd Ffordd Coed y Maes i gyfeiriad Dinas Bangor Cyflwynodd restr y gwestiynau i'r aeloda Lleol holi swyddogion Gwynedd

Mynegwyd pryder hefyd am safon y gwaith hyd yma

C**ytunodd Cyng M Baines i wneud hynny a dod yn ol hefo ymatebion Gwynedd**

**Cyng J Lewis Maes Parcio i Ras Moelyci 3ydd o Chwefror** Yn absennoldeb y Cyng J Lewis adroddod y Clerc iddo ef a'r Cyng dderbyn cais i ddefnyddio maes Parcio y Fynwent ar gyfer cynal ras a/neu gerdded i ben Moelyci i godi arian ar Ysgol dramor **Cytunwyd i roi caniatad**

**Materion PPR Lon Plas a merurydd cyflymder**

Nid oedd y Cyngor yn gweld pwrpas i geisio mabwysiadu Lon Plas ar gyfer sefydlu llwybr beicio / Llwybr Llesiant gan bod cymaint o ddefnyddwyr gwahanol eisioes hefo hawl tramwyo drosti Clerci holi ynglyn a chael mesurydd cyflymder ond yn ymwybodol fod cais tebyg yn y gorffennol i gael Mesurydd ar Ffordd Penrhos wedi ei droi lawr oherwydd – gwerth am arian

**Bwrdd Hanes a Gwyrdd Rhydygroes**

Ail gyfarfod wedi ei gynnal yn Neuadd Rhiwlas i drafod y bwrdd hanes a dod a syniadau at eu gilydd Y dylunydd rwan angen creu math y dempled a phrisio

**Rhai o aelodau PPR yn awyddus i gael ail goeden Nadolig ar y gwyrdd yn Rhydygroes**

Efallai byddai angen caniatad gan Cyngor Gwynedd er bod y lleoliad yn cael ei adnabod fel Comin Pentir **Clerc i holi**

**Cyng B Jones Gwaith ar Ffordd Penrhos yn achosi pryder gwelededd ag yn cwestiynnu diogelwch cerddwyr a beicwyr ar yr un llwybr**

Yn ogystal a sylwadau/cwestiynau gan y Cyng D Jones-Morris gofynnwyd i't Cyng M Baines hefyd drafod y mater diogelwch yma hefyd hefo Swyddogion Gwynedd

**Cyng J Pierce Llwybr Cyhoeddus Hafodol Ganol**

Y Clerc a'r Cyng Pierce wedi derbyn ymholiad gan berchennog newydd Hafodol Ganol ynglyn a gwyro llwybr cyhoeddus sy'n croesi ei dir**. Mae peth amheuaeth os yw'r llwybr cyhoeddus yma yn bodoli gan y byddai yn arfer croesi darn o Nant y Garth sydd wedi bod yn cael ei lenwi mewn ers blynyddoedd lawer.**

**Cadarnhawyd hyd yn oed os ydio'n bodoli ni fyddai'r Cyngor yma yn gallu ei wyro gan mae cyfrifoldeb Awdurdod Lleol (Cyngor Gwynedd) yw gwyro llwybrau**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.15**